Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **15 Awst 2019** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:45** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Y DBG/DD Claire Parmenter, HDP (DBG/DD)<br>Y PGC/DD Vicky Evans, HDP (PGC/DD)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Steve Cadenne, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Pobl (SC)<br>Dylan Davies, Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol (DD)<br>Yr Arolygydd Elaine Bendle, HDP, (EB)<br>Y Rhingyll Andrew Williams, HDP (AW)<br>Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Edwin Harries, Cyfarwyddwr Ariannol, HDP (CA)<br>Yr Arolygydd Chris Neve, HDP (CN) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/07/2019** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2361** | **Y PS i ymgysylltu â Tracy Hawthorne mewn perthynas â nodi diwrnod ar gyfer llunio rhestr fer a chyfweld ag ymgeiswyr ar gyfer y rôl Pennaeth yr Uned Cyswllt Heddlu.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2362** | **Mark McSweeney i roi adroddiad argymhelliad ar gyfer Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, a baratowyd yn ddiweddar ar gyfer Llywodraeth Cymru, i'r CHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2363** | **Y PSA a'r CA i ymgysylltu ynghylch dwyn cyfalaf ymlaen i 2019/20.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2364** | **SCHTh, y PG a'r CHTh i gynnal a mynychu cyfarfod agoriadol y Grŵp Cynaliadwyedd gyda chynrychiolwyr TGCh a chyfathrebu newydd ym mis Hydref/Tachwedd.** | **Yn parhau** |
| **PB 2365** | **Y CHTh a'r PG i ofyn i arweinwyr heddluoedd eraill Cymru i leihau olion troed carbon eu heddluoedd unigol yn dilyn cyfarfod agoriadol** | **Yn parhau tan y cyfarfod** |

| | | |
|---|---|---|
| | **y Grŵp Cynaliadwyedd.** | **agoriadol.** |
| **PB 2366** | **Y CY i adolygu gweithgarwch Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i haddewidion a'i chynlluniau o gwmpas lleihau ei hôl troed carbon.** | **Yn parhau tan y cyfarfod agoriadol.** |
| **PB 2367** | **HDP i ddrafftio llythyr ymateb i'r Cynghorydd Summons yn amlinellu ei gefnogaeth tuag at ddefnyddio SCCH i gefnogi gorfodi gollwng sbwriel yn Sir Benfro.** | **Cwblhawyd** |

| **CRYNODEB O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD 15/08/2019** | | |
|---|---|---|
| **PB T2 104** | **Cytunodd y CHTh a'r DBG/DD i HDP gefnogi'r Rhaglen Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol Genedlaethol gyda rhodd o £7500.** | **Yr Heddlu** |

## 2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf yn adlewyrchiad gwir a chywir o'r cyfarfod.

**PB 2347 - CHTh i fynegi pryderon mewn perthynas â'r posibilrwydd y bydd y gwasanaeth adenydd sefydlog yng Nghaerdydd yn cael ei ddileu yng nghyfarfod nesaf Grŵp Plismona Cymru Gyfan, gan ysgrifennu at Fwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn dilyn hynny. –** Dywedodd y CHTh y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod nesaf Bwrdd Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu ar 26 Medi.

**PB 2348 - Y tîm AD i ddarparu dau dabl arall fel rhan o'r adroddiad ar y gweithlu – un i gynnwys yr holl rolau TARIAN ac Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru, ac un arall i arddangos ffigwr net yr heddlu. –** Dywedodd y PSA ei fod yn bwysig cael eglurder dros gyfanswm net a chyfanswm llawn swyddogion a sicrhau cysondeb o ran adrodd yn unol â Chofnod Data Blynyddol y Swyddfa Gartref gan fod nifer y swyddogion mewn swyddi cydweithredol a secondiad yn agored i newid. Dywedodd y CHTh yr hoffai pe bai adroddiadau AD yn ategu adroddiad llywodraethu'r heddlu.

**Cam Gweithredu: Y PS, PSA a Steve Cadenne i drafod ffurf cyflwyniad AD yr Heddlu i'r Bwrdd Plismona ar ôl ystyried Adroddiad Adnoddau Strategol y Bobl sy'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Pobl.**

**PB 2351 - Nichola Rance i ymgysylltu â'r tîm Diogelu Data mewn perthynas â'r model eithrio. –** Dywedodd y PGC/DD bod angen

cydsyniad penodol unigolyn cyn rhoi ei fanylion i wasanaethau cymorth ar gyfer cwblhau arolwg defnyddiwr; fodd bynnag, roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dywedodd y PS y byddai'n fuddiol i'r Heddlu ddarparu adroddiad sefyllfa ar arolygon Cam-drin Domestig ac arolygon Bodlonrwydd Dioddefwyr yn eu cyfanrwydd cyn i'r Panel Heddlu a Throseddu ganolbwyntio ar y meysydd hyn yn ei gyfarfod fis Hydref. Dywedodd y PGC/DD y byddai cyfleoedd i dynnu sylw at gynnydd mewn perthynas â gwaith ar y Ddesg Fregusrwydd Cam-drin Domestig ar 25 Tachwedd 2019, sef Diwrnod Rhuban Gwyn.

**Cam Gweithredu: Y PGC/DD i roi adroddiad sefyllfa ar arolygon Cam-drin Domestig ac arolygon Bodlonrwydd Dioddefwyr cyn cyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Hydref 2019.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

### Diweddariadau Gweithredol

Diweddarodd y DBG/DD y Bwrdd am ddau ymosodiad diweddar ar swyddog. Nodwyd bod y swyddog yn derbyn cymorth gan yr heddlu.

Cafwyd trafodaeth ynghylch gweithgarwch yn y cyfryngau gan HDP, gyda'r CHTh yn argymell bod angen ymgymryd â mwy o weithgarwch er mwyn hyrwyddo llwyddiant ymgyrchoedd HDP a digwyddiadau cyhoeddus megis Byrddau Atebolrwydd yr Heddlu.

### Diweddariadau Sefydliadol

Hysbysodd y DBG/DD y Bwrdd bod diwrnod arddangos i gyflenwyr ar gyfer y system rheoli cofnodion yn cael ei gynnal ym mis Hydref. Nodwyd y byddai'r Grŵp Gweithio Ystwyth yn cynnal ei gyfarfod agoriadol yn ystod yr wythnos yn cychwyn 18 Hydref. Nodwyd hefyd y byddai cynrychiolydd AD o Heddlu Essex a Chaint yn cynnal adolygiad cymheiriaid yn HDP yn ystod yr wythnosau i ddod.

Dywedodd y CHTh wrth y Bwrdd y byddai'n fuddiol i Heddlu Dyfed-Powys (HDP) adolygu ei bolisi ar gyfer anghyflogaeth yn y Bwrdd Pobl yn dilyn trafodaethau parhaus ynghylch taliadau datgysylltiad ar gyfer staff yr heddlu a SCHTh mewn perthynas ag aelodau staff sy'n gadael.

## 4. Diweddariad CHTh

### Lleol

Dywedodd y CHTh wrth y Bwrdd ei fod wedi mynd i Ŵyl Jas Aberhonddu a Sioe Sir Benfro yn ystod yr wythnos ddiwethaf, ynghyd ag ymrwymiadau cyhoeddus eraill.

**Cenedlaethol**

Dywedodd y CHTh ei fod wedi cwrdd â Llywodraethwr Carchar Abertawe yr wythnos flaenorol ac y byddai'n ei gwahodd i gyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol SCHTh ym mis Hydref.

## 5. Eitemau Sefydlog

### a) AD

Cafwyd trafodaeth ynghylch canfyddiad y cyfryngau o ffigurau AD HDP yn dilyn datganiad a gyhoeddwyd i'r cyfryngau gan un o gynghorwyr Cyngor Sir Gaerfyrddin. Argymhellodd y CHTh eglurder a chysondeb wrth ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi i'r cyhoedd, ac awgrymodd y dylid cyhoeddi ffigurau AD ar wefan HDP i ddirymu'r angen am geisiadau rhyddid gwybodaeth lluosog. Dywedodd y PS ei bod hi wedi dwyn y mater o geisiadau rhyddid gwybodaeth cyson i sylw Bwrdd Dysgu'r Gwersi mis Awst ac argymhellodd ddefnyddio ffigurau cyfwerth â llawn amser ar gyfer ceisiadau rhyddid gwybodaeth AD gan eu bod nhw'n adlewyrchu nifer y gweithwyr yn well. Dywedodd  DD y byddai swyddogion TARIAN yn cael eu cynnwys yn y ffigurau yn y dyfodol oherwydd maent yn cael eu hystyried yn swyddogion HDP, gan ychwanegu 10 swyddog arall i'r cyfanswm. Gofynnodd y PSA am eglurder o ran ffigurau'r Gofyniad Data Blynyddol o'u cymharu â'r ffigurau a roddwyd i'r Bwrdd oherwydd roedd yn ymddangos fel pe bai anghysondeb rhwng cyfanswm y swyddogion. Dywedodd y PSA bod cywirdeb a chysondeb yn hollbwysig oherwydd gallai'r Swyddfa Gartref a'r Trysorlys eu defnyddio er mwyn hysbysu penderfyniadau e.e. recriwtio 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch agweddau ariannu a logisteg ar gyfer y swyddogion heddlu ychwanegol, a nodwyd bod galwadau cynhadledd wythnosol yn cael eu cynnal. Gofynnodd y CHTh am eglurder llwyr ynghylch niferoedd swyddogion ar gyfer y 10 mlynedd diwethaf, gan gynnwys crynodebau URS.

**Cam Gweithredu: Y CA i gysylltu â Chyfarwyddwyr Ariannol eraill yn y DU er mwyn sefydlu'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag ariannu cynnydd mewn niferoedd swyddogion yn ystod yr alwad gynhadledd ar 9 Awst.**

Cafwyd trafodaeth ynghylch sut y gall HDP ddylanwadau ar geisiadau gan bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng ngoleuni'r ffaith mai dim ond un ymgeisydd o'r gymuned pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd

ethnig sydd yn y gronfa ymgeiswyr ar hyn o bryd. Dywedodd y DBG/DD bod y PG yn gweithio gyda Changhellor Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar hyn o bryd er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg ymgeiswyr o'r gymuned pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn dilyn ei bresenoldeb mewn cynhadledd yn y Brifysgol. Nodwyd bod 7 o'r 10 swyddog sydd wedi trosglwyddo i Ogledd Powys yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Canmolodd y CHTh hyn. Dywedodd DD bod 6 swydd wag SCCH ar hyn o bryd, sy'n cael ei ystyried yn isel iawn gan y Bwrdd.

Gofynnodd y CHTh am esboniad dros y gostyngiad mewn niferoedd swyddogion yn Sir Gaerfyrddin o 351 yn 2008 i 299 yn 2019. Dywedwyd wrtho fod mwy o swyddogion o Sir Gaerfyrddin nag unrhyw URS arall yn cael eu defnyddio i weithio mewn adrannau eraill, megis y Ddesg Fregusrwydd Cam-drin Domestig, a leolir ym Mhencadlys yr Heddlu. Hefyd, dywedodd y DBG/DD bod nifer o swyddi, gan gynnwys Swyddogion Crwner, wedi'u gwneud yn swyddi sifil, sydd hefyd wedi effeithio ar y ffigurau, yn enwedig yn Sir Gaerfyrddin. Nodwyd bod nifer y swyddogion sy'n gweithio mewn adrannau ym Mhencadlys yr Heddlu wedi cynyddu o 170 yn 2008 i 232 yn 2019.

**Cam Gweithredu: Rhoi ffigurau cyson i'r CHTh cyn ei ymweliad ef a'r PG ym mis Medi â Portcullis House, San Steffan, i drafod cyllid ar gyfer yr heddlu gydag Aelodau Seneddol Dyfed-Powys. Dylid cyhoeddi'r ffigurau ar wefan HDP hefyd er mwyn dirymu'r angen i ateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth lluosog.**

Cyflwynodd y DBG/DD adroddiad cryno ar raddio swyddogion a staff yn HDP, gan roi sylw arbennig i raddio Cyfarwyddwyr Cynorthwyol. Mae DD wedi cwblhau gwerthusiadau o sawl swydd, gyda Heddlu Gwent yn darparu sicrwydd ansawdd, gan arwain at ddwy swydd lefel uwch o fewn HDP yn cael eu hail-raddio ar lefel uwch. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha un ai a ddylai pob swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol gael ei hadolygu ar gyfer ail-raddio er mwyn sicrhau tegwch ar gyfer pob aelod staff.

**b) Risg**

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad risg i'w drafod.

## 6. Ffocws Tair Wythnosol: AHEM

Rhoddodd yr Arolygydd Elaine Bendle adroddiad diweddar i'r Bwrdd ar ddatblygiadau gydag Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) ar ôl cyflwyno Datganiad Rheoli'r Heddlu i AHGTAEM ym mis Gorffennaf. Nodwyd y byddai Arweinydd Cyswllt AHGTAEM yr Heddlu'n ymweld â'r heddlu yn ystod yr wythnos yn cychwyn 19 Awst er mwyn dysgu am waith sy'n mynd rhagddo o gwmpas Plismona

Bro a Thegwch yn y Gweithle ar gyfer staff. Nodwyd bod cod lliw, sef coch, ambr a gwyrdd, wedi ei roi i feysydd sydd angen gwelliant er mwyn sicrhau y canolbwyntir ar faterion sydd angen sylw brys.

Holodd y CHTh sut oedd yr heddlu'n sicrhau bod pob argymhelliad yn cael ei fodloni. Dywedwyd wrtho fod cynlluniau gweithredu'r Gofyniad Plismona Strategol wedi'u hysgrifennu a'u croesgyfeirio i fyrddau eraill sy'n cyfrannu tuag at waith AHGTAEM.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag ailstrwythuro Timoedd Plismona Bro. Holodd y CHTh pa un ai a oedd risgiau'n gysylltiedig â'r gwaith hwnnw. Dywedodd y PGC/DD nad oes unrhyw risgiau i'r cyhoedd, fodd bynnag, mae AHGTAEM wedi argymell sicrhau bod prosesau'n gyson o fewn timoedd plismona bro ar draws y pedair Uned Reoli Sylfaenol (URS). Nodwyd y bu rhai pryderon ymysg timoedd plismona bro mewn perthynas â'r trefniadau newydd, fodd bynnag, roedd prif swyddogion yn sicrhau bod negeseuon cyson er mwyn gwneud yn siŵr y byddai tystiolaeth bendant yn cael ei dogfennu i AHGTAEM gan arddangos bod swyddogion yn gwneud gwahaniaeth effeithiol o fewn eu cymunedau. Gofynnodd y CHTh am i arweinwyr cymunedol gael gwybod am y newidiadau hyn ac am waith cymunedol sy'n mynd rhagddo. Cafodd wybod gan y PGC/DD bod hyn yn rhan o waith cyfredol sy'n cael ei gyflawni gan y Prif Arolygydd McSweeney, sy'n arwain y gwaith o ran timoedd plismona bro. Nodwyd y byddai gwerthusiad arfaethedig o'r gwaith sy'n ymwneud â thimoedd plismona bro'n cael ei gynnal yn fewnol ar ôl 6 mis er mwyn sefydlu pa un ai a oes angen diwygiadau. Dywedodd y DBG/DD y byddai'n fuddiol i'r CHTh gael cyfarfod un i un gyda Sarah Cooper o AHGTAEM er mwyn asesu cyfeiriad teithio'r heddlu a gweithredu haen o graffu ychwanegol.

Nodwyd y byddai AHGTAEM yn adolygu gwaith HDP ar Alw, a oedd yn cael ei ddefnyddio i hysbysu lleoli adnoddau. Holodd y CHTh am gydbwysedd penderfyniadau comanderiaid URS ochr yn ochr â data galw corfforaethol a phenderfyniadau strategol. Nodwyd bod pob Comander URS yn cael cyfarfodydd un-i-un o fewn y tîm galw, a'u bod yn derbyn diweddariadau'n rheolaidd er mwyn hysbysu eu penderfyniadau. Ar 4 Hydref, bydd pob comander URS yn adolygu data Timoedd Plismona Bro, gyda'r tîm galw a Phrif Swyddogion yn penderfynu ar fodel ar gyfer Timoedd Plismona Bro ar draws y 4 URS.

Cafwyd trafodaeth ynghylch nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i aros am ateb pan maen nhw'n galw 101, sef rhif difrys HDP. Mynegodd y CHTh bryder bod y nifer sy'n rhoi'r gorau i aros wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd y PGC/DD bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau bod trinwyr galwadau'n derbyn hyfforddiant a chymorth i ymdrin â galwadau yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf yn lle agor adroddiadau STORM ar gyfer swyddogion. Nodwyd hefyd bod Canolfan

Gyfathrebu'r Heddlu wedi cael gwared ar staff nad oedd eu hangen, a bod gwaith yn mynd rhagddo i hyfforddi'r staff sy'n weddill er mwyn sicrhau perfformiad optimaidd.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Cartref Ar-lein Sengl, a chydnabu y gallai demograffeg poblogaeth Dyfed-Powys fod wedi effeithio ar alw. Cydnabu y byddai angen adolygu nifer y trinwyr galwadau 101 er mwyn sicrhau perfformiad. Holodd y CHTh beth fyddai'r amserlenni ar gyfer y gwaith hwn. Dywedwyd wrtho y byddai'r PGC/DD yn astudio'r data galw'r prynhawn hwnnw er mwyn asesu'r sefyllfa'n feirniadol.

Symudodd y CHTh ymlaen at ddiweddariadau radio gan staff Canolfan Alwadau HDP, sy'n cynnwys cyfuno sianeli radio Sir Gaerfyrddin a Phowys, a Sir Benfro a Cheredigion. Dywedodd y DBG/DD y bu defnydd yn aneffeithlon ac y byddai cyfuno'n annog disgyblaeth radio.

Mewn perthynas ag AHGTAEM, awgrymodd y PS y gallai SCHTh gymryd rhan yng nghyfarfod cwmpasu mis Rhagfyr er mwyn adlewyrchu ar weithgarwch craffu, ac awgrymodd y CHTh y gallai Panel Sicrhau Ansawdd SCHTh gefnogi'r gwaith cwmpasu hefyd. Croesawyd y ddau awgrym hyn gan y DBG/DD.

Dywedodd y PSA ei bod hi a'r CA yn cadeirio is-grŵp o gyfarfodydd Rhagoriaeth Ariannol Mewn Plismona Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar hyn o bryd. Gwahoddwyd AHGTAEM i'r grŵp Rheolaeth Ariannol, a allai annog cysondeb ymagwedd tuag at yr agweddau perthnasol o fewn archwiliadau.

Nodwyd nad oedd dyddiad wedi'i roi gan AHGTAEM eto ar gyfer archwiliad sy'n cael ei arwain gan ddatganiad rheoli HDP, ond disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn ystod y gwanwyn yn 2020. Nodwyd hefyd nad oedd arwydd pryd y byddai'r archwiliad nesaf o effeithlonrwydd yr heddlu (PEEL) yn cael ei gynnal, fodd bynnag, dywed AHGTAEM y byddai archwiliad o'r rhai a ryddhawyd dan ymchwiliad gan HDP yn cael ei gynnal eleni.

**7. Materion i'w Trafod**

**a) Diweddariad ynghylch Arfau Saethu yn dilyn y cyfarfod blaenorol**

Rhoddwyd diweddariad i'r CHTh a chrynodeb o achosion sy'n cael eu hadolygu gan Uwch Swyddog Arfau Saethu HDP.

**b) Llythyr yn cefnogi'r Rhaglen Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol Genedlaethol**

Yng nghyfarfod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu, cytunwyd y byddai pob heddlu'n cefnogi'r rhaglen drwy roi £7500 yr un, yn ôl y DBG/DD. Dywedodd y DBG/DD y byddai'r timoedd plismona bro'n cefnogi trefnu'r cadetiaid unwaith y byddai'r timoedd hyn wedi'u hail-strwythuro, gyda'r Uned Lleihau Troseddu a Niwed yn arwain.

**Penderfyniad: Cytunodd y CHTh a'r DBG/DD i HDP gefnogi'r Rhaglen Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol Genedlaethol gyda rhodd o £7500.**

**c) Diweddariad Ynghylch Cyllid**

Dywedodd y PSA bod y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn iachach nag oedd yn ymddangos ym mis Mehefin 2019, fodd bynnag, roedd y rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn nawr yn adrodd am fân orwariant, a hynny'n bennaf oherwydd y ffaith bod swyddogion heddlu wedi derbyn codiad cyflog yn ddiweddar. Roedd nifer o bwysau ariannol ynghyd â nifer o arbedion damweiniol, a fyddai'n cael eu monitro'n ofalus. Dywedodd y PSA y byddai'n cwrdd â'r CA er mwyn trafod materion yn fanylach.

**ch) Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw**

Rhoddodd y PSA ddiweddariad cryno i'r Bwrdd ynglŷn â'r model prisio ar gyfer y ddarpariaeth Canolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhyw rhwng HDP, Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent. Dywedodd y PSA y bu awgrym i'r tri heddlu rannu'r rhan fwyaf o'r costau ar gyfer y gwasanaeth ar sail gyfartal, fodd bynnag, roedd hi a'r Cyfarwyddwr Comisiynu'n ystyried y dylai gweithgarwch galw ddylanwadu ar y gyfran o'r costau i raddau helaethach. Roedd trafodaethau'n cael eu hannog rhwng rhanddeiliaid unigol er mwyn sicrhau model prisio i adlewyrchu'r ddarpariaeth a'r defnydd o'r gwasanaeth yn gywir.

**d) Y Cyd-uned Arfau Saethu/ Maes Tanio Newydd**

Rhoddodd y PSA ddiweddariad mewn perthynas â chyfarfod diweddar i drafod y dewisiadau ar gyfer rhannu'r gost o'r maes tanio newydd a model prisio ar gyfer y Cyd-uned Arfau Saethu, a allai olygu atebolrwydd ariannol sylweddol ar gyfer HDP. Dywedodd y DBG/DD bod y PG wedi bod yn ymgysylltu â Jenny Gilmer, Cadeirydd Bwrdd Goruchwylio'r Cyd-uned Arfau Saethu, er mwyn archwilio i ddewisiadau.

**Cam Gweithredu – Y PSA i drafod oblygiadau ariannol ymhellach gyda'r PGC/DD a'r CA cyn y cyfarfod nesaf ar y cyd ar 13 Medi.**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 15/08/2019 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn** |

| Gweithredu | | ei flaen gan |
|---|---|---|
| **PB 2368** | **Y PS, PSA a Steve Cadenne i drafod ffurf cyflwyniad AD yr Heddlu i'r Bwrdd Plismona ar ôl ystyried Adroddiad Adnoddau Strategol y Bobl sy'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Pobl.** | **PS/PSA/Steve Cadenne** |
| **PB 2369** | **Y PGC/DD i roi adroddiad sefyllfa ar arolygon Cam-drin Domestig ac arolygon Bodlonrwydd Dioddefwyr cyn cyfarfod y Panel Heddlu a Throseddu ym mis Hydref 2019.** | **PGC/DD** |
| **PB 2370** | **Y CA i gysylltu â Chyfarwyddwyr Ariannol eraill yn y DU er mwyn sefydlu'r penderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag ariannu cynnydd mewn niferoedd swyddogion yn ystod yr alwad gynhadledd ar 9 Awst.** | **CA** |
| **PB 2371** | **Rhoi ffigurau cyson i'r CHTh cyn ei ymweliad ef a'r PG ym mis Medi â Portcullis House, San Steffan, i drafod cyllid ar gyfer yr heddlu gydag Aelodau Seneddol Dyfed-Powys. Dylid cyhoeddi'r ffigurau ar wefan HDP hefyd er mwyn dirymu'r angen i ateb ceisiadau rhyddid gwybodaeth lluosog.** | **DD** |
| **PB 2372** | **Y PSA i drafod oblygiadau ariannol ymhellach gyda'r PGC/DD a'r CA cyn y cyfarfod nesaf ar y cyd ar 13 Medi.** | **PSA** |